Tŷ'r Cwmnïau
Cod Cydymffurfio

BIS | Yr Adran Busnes Arloesi a Sgiliau

GWASANAETH GAN BIS

Tŷ'r Cwmnïau
er gwybodaeth

Cynnwys

Cynnwys	02
Rhagair	03
Rôl a safonau gwasanaeth	04
Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym	04
Cyhoeddi safonau	06
Bod yn agored	06
Ymgynghori	07
Bwrdd Llywio	07
Grwpiau Ffocws	07
Gwefan	07
Gofal Cwsmeriaid	08
Cwrteisi a bod o gymorth	11
Ymholiadau gan gwsmeriaid	12
Sut y gallwch chi ddiogelu ich cwmni	14
Cylchgrawn ‘Register’	14
Cynhyrchion a gwasanaethau	14
Diwrnodau Gwybodaeth	14
Arddangosfeydd	15
Yr Iaith Gymraeg	15
Cyfathrebu gyda ni	16
Cwsmeriaid sydd ag anghenion arbennigy	18
Cost cydymffurfio a Gwerth am arian	18
Cysondeb	19
Arweiniad	20
Cysylltiadau	20

Rhagair

Nod y daflen hon yw cynnig gwybodaeth eglur am safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gan Dŷ'r Cwmnïau, a'r hyn i'w wneud os bydd angen i chi wneud cwyn.

Rydym wrth wraidd gwybodaeth am gwmnïau yn y DU, gan gofnodi digwyddiadau arwyddocaol cwmnïau er mwyn i bawb eu gweld. Ein gweledigaeth yw bod yn gyfnewidfa wybodaeth o safon fyd-eang; gan fod yn hygyrch ac yn hawdd i'n defnyddio, a sicrhau bod pobl yn ymddiried ynom.

Mae Tŷ'r Cwmnïau yn gweithio yn galed iawn i ddarparu gwasanaeth da i'n holl gwsmeriaid ac i sicrhau lefelau uchel o ran bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae'n llwyddiant yn hyn o beth yn golygu y dyfarnwyd chwe Nod Siarter i ni yn olynol, ac rydym wedi llwyddo i sicrhau cyfraddau bodlonrwydd cwsmeriaid sydd dros 86%.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn cymryd hyn yn ganiataol o gwbl. Mae Gweinidogion yn gosod targedau cyhoeddus llym ar ein cyfer er mwyn sicrhau gwelliannau yn y ffordd y darparir ein gwasanaethau, ac mae gennym strategaeth a chynllun mapio sy'n nodi ein cynlluniau ac sy'n ei gwneud yn haws fyth i bobl ddelio gyda ni.

Mae disgwyliad y Llywodraeth, a fynegwyd yn yr egwyddorion a nodwyd gan Syr Philip Hampton, y bydd asiantaethau yn darparu gwasanaethau hygyrch iawn a hawdd i'w defnyddio, gyda chryn dipyn o uniondeb, yn sail i hyn oll. Adlewyrchir ein bwriad i fodloni'r disgwyliad hwn yn y ffordd y byddwn yn gweithio ac yn ein gweledigaeth.

Mae gwerthoedd sy'n adlewyrchu ein penderfyniad i ganolbwyntio ar y cwsmer ym mhopeth a wnawn, wrth wraidd ein gwaith yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Mae'r gwerthoedd fel a ganlyn:

- ei wneud yn gywir
- gwneud gwahaniaeth
- gweithio gyda'n gilydd

Os nad ydym yn llwyddo i gyflawni'r gwerthoedd, mawr obeithiwn y byddwch yn dweud wrthym, er mwyn i ni allu gwneud rhywbeth yn ei gylch.

GARETH JONES OBE – Prif Weithredwr



Rôl a safonau gwasanaeth

Swyddogaeth Tŷ'r Cwmnïau yw cofrestru a darparu gwybodaeth am gwmnïau.

Mae hyn yn cynnwys:.

- corffori ac ailgofrestru cwmnïau newydd a gwneud newidiadau i enwau cwmnïau
- diddymu cwmnïau a dileu o'r gofrestr y cwmnïau hynny sydd wedi darfod
- sicrhau bod cwmnïau yn cydymffurfio gyda gofynion datgelu gwybodaeth statudol y Deddfau Cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall
- cofrestru a chadw gwybodaeth am gwmnïau; a sicrhau bod y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio a'i defnyddio

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, mae'r amcan cyffredinol fel a ganlyn:

Darparu gwasanaeth hygyrch, darbodus ac o ansawdd uchel, sy'n diwallu anghenion ein holl gwsmeriaid – yn ddefnyddwyr ac yn ddarparwyr gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau.

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym

Mae gennych yr hawl i ddisgwyl y canlynol gan Dŷ'r Cwmnïau:

Gwybodaeth eglur am yr hyn a wnawn a pha mor dda yr ydym yn ei wneud, trwy osod safonau a chyhoeddi pa mor dda y byddwn yn eu cyflawni

Byddwn yn cyflawni hyn trwy:

- ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn brydlon ac yn fanwl
- cadw'r costau o gydymffurfio gyda'r gyfraith mor isel ag y bo modd
- cadw ein costau ni yn isel, ac o ganlyniad, y costau y byddwn yn eu codi
- ystyried cyflwyno ffyrdd newydd o wneud pethau yn barhaus, sy'n ei gwneud yn haws i'n cwsmeriaid i anfon a chael gwybodaeth

Help ac arweiniad ar gyfer cwsmeriaid

Byddwn yn helpu trwy:

- ddarparu arweiniad a ffurflenni sy'n hawdd i'w deall
- darparu gwasanaeth ymholiadau dros y ffôn
- darparu gwasanaeth ymholiadau e-bost
- ymgynghori gyda'n cwsmeriaid
- bod yn gwrtais bob amser
- trin pawb mewn ffordd deg a diduedd
- gweithio gydag eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus fel y Gwasanaeth Ansolfedd

System Gwyno hawdd i'w defnyddio

Ein nod yw datrys unrhyw broblemau a thrafferthion yn gyflym ac mewn ffordd deg, gan feddu ar system gwyno:

- sy'n hygyrch ac sy'n cael ei hysbysebu yn dda
- sy'n syml ac yn hawdd i'w deall a'i defnyddio
- sy'n gyflym, gan gynnwys cyfyngiadau amser sefydledig er mwyn gweithredu, ac sy'n hysbysu pobl o unrhyw gynnydd
- sy'n deg, gan gynnwys gweithdrefnau ymchwilio llawn a gwrthrychol
- sy'n cadw manylion staff a chwsmeriaid yn gyfrinachol
- sy'n delio â phob pwynt dan sylw mewn ffordd effeithiol, gan gynnig camau priodol i unioni unrhyw gam
- sy'n darparu gwybodaeth i reolwyr er mwyn sicrhau bod modd gwella gwasanaethau
- sy'n darparu ac hysbysebu llwybrau amgen os na fydd cwsmeriaid yn fodlon gyda'r ffordd y deliwyd â'r broblem e.e y Dyfarnydd Cwynion annibynnol ar gyfer Tŷ'r Cwmnïau.

Cyhoeddi safonau

Mae gennym nifer o safonau, sy'n ymwneud â

- chofrestrfa fanwl ac sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf
- y ffordd y byddwn yn darparu gwybodaeth am gwmnïau
- gwerth am arian
- sut y byddwn yn delio gyda cheisiadau am wybodaeth a chwynion

Dangosir ein perfformiad yn erbyn ein safonau yn ein holl Ganolfannau Gwybodaeth, ac fe'i cyhoeddir bob chwarter yn ein cylchgrawn i gwsmeriaid, Register, y mae modd cael copi ohono yn rhad ac am ddim, ac fe'i dangosir ar ein gwefan sef www.companieshouse.gov.uk.

Datblygir ein safonau trwy ymgynghori gyda Grwpiau Ffocws a budd-ddeiliaid allweddol. Yn ogystal, rydym yn manteisio ar drafodaethau nffurfiol a holiaduron ar gyfer cwsmeriaid er mwyn helpu i lunio ein blaenoriaethau ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau, i'w cynnwys mewn targedau. Byddwn yn ceisio cefnogaeth ein Bwrdd Llywio ar gyfer targedau cyhoeddus cyn gwneud cyflwyniadau i Weinidogion.

Nodir y targedau cyhoeddus hyn a'n perfformiad yn eu herbyn, yn ein Hadroddiad Blynyddol, a gyflwynir gerbron y Senedd ar ôl cynnal archwiliad annibynnol ohono.

Bod yn agored

Er mwyn ein helpu i sicrhau ein bod yn cynnal ein safonau ac er mwyn amlygu meysydd i'w gwella, rydym wedi pennu Mynegai Bodlonrwydd Cwsmeriaid. Caiff hwn ei seilio ar argraffiadau cwsmeriaid o'n perfformiad mewn perthynas â ffactorau penodol o'u dewis, ac fe'i profir gan Arolygon Bodlonrwydd Cwsmeriaid chwarterol.

Ar hyn o bryd, rydym yn mesur ein perfformiad yn erbyn y meini prawf canlynol a awgrymwyd gan gwsmeriaid fel y rhai pwysicaf iddyn nhw:

- ansawdd y wybodaeth a ddarparir
- pa mor gyflym y byddwn yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani
- pa mor dda y byddwn yn ymateb i broblemau
- gwerth am arian ein cynhyrchion a'n gwasanaethau
- gwybodaeth y staff
- hygyrchedd
- pa mor hawdd yw hi i ffeilio dogfennau gyda ni

Adroddir yr arolygon bob chwarter ac mae modd eu llenwi ar-lein trwy droi at www.companieshouse.gov.uk. Cyhoeddir y canlyniadau yn ein cylchgrawn i gwsmeriaid, Register, ac maent ar gael ar ein gwefan hefyd.

Caiff y canlyniadau eu cyfleu i reolwyr a staff yn Nhŷ'r Cwmnïau er mwyn ein galluogi i nodi meysydd i'w gwella ac er mwyn bodloni anghenion cwsmeriaid. Defnyddir gwybodaeth o'n gwaith ymchwil mewn cyrsiau hyfforddi er mwyn cynnig dealltwriaeth fanylach i'n staff o anghenion ac argraffiadau cwsmeriaid.

Os hoffech gymryd rhan yn yr arolwg, a fyddech cystal â chysylltu ag

Ian Smith
Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid
ismith@companieshouse.gov.uk

Ymgynghori

Pan fyddwn yn bwriadu gwneud newidiadau mawr, a allai gael effaith arwyddocaol ar ein cysylltiadau gyda chwsmeriaid a'r ffyrdd y byddant yn delio gyda ni, byddwn yn cynnal ymarferion ymgynghori ffurfiol.

Bwrdd Llywio

Mae'n prif fwrdd, sy'n cynnwys pobl fusnes profiadol, yn ogystal â gweision sifil uwch o BIS a Bwrdd Cyfarwyddwyr Tŷ'r Cwmnïau, yn darparu cymorth ac yn herio ein polisïau, ein perfformiad a'n cynlluniau. Yn ogystal, mae'n ffynhonnell werthfawr cyngor allanol i'r tîm gweithredol.

Grwpiau Ffocws

Mae Grwpiau Ffocws Rhanbarthol yn helpu Tŷ'r Cwmnïau i ystyried materion sy'n effeithio ar ansawdd ein gwasanaethau mewn ffordd strwythuredig, er mwyn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o ofynion cwsmeriaid ac er mwyn ceisio'u safbwyntiau yn gyffredinol. Cynhelir dros ugain o sesiynau Grwpiau Ffocws ddwywaith y flwyddyn mewn lleoliadau ar draws y DU. Os hoffech fynychu, a fyddech cystal â chysylltu â:

Marie Connors
Cydlynydd Grwpiau Ffocws
mconnors@companieshouse.gov.uk

Gwefan

Ein gwefan yw'n prif ffordd o gyfathrebu gyda'n cwsmeriaid ac ar gyfer cwsmeriaid sy'n dymuno manteisio ar ein gwasanaethau. Mae'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth am ein gwasanaethau i gwsmeriaid a'n gweithrediadau, ac mae'n cynnwys testun llawn ein Cyhoeddiadau Arweiniad, gan helpu cwmnïau i gydymffurfio gyda'u hymrwymiadau cyfreithiol.

> "Arddangosir ein perfformiad mewn perthynas â'n safonau yn ein holl Ganolfannau Gwybodaeth ac fe'i gyhoeddir yn chwarterol yn ein cylchgrawn i gwsmeriaid, Register."



Gofal cwsmeriaid

Gofal cwsmeriaid

Ymateb i'ch sylwadau
Rydym yn croesawu unrhyw safbwyntiau sydd gennych am ein perfformiad, a allai ein helpu i wella lefelau ein gwasanaeth. A fyddech cystal ag anfon eich sylwadau at:

Ian Smith
Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid
ismith@companieshouse.gov.uk

Yr hyn y dylech ei wneud os byddwch yn cael problem neu anhawster

Mae'n gweithdrefnau cwyno yn delio â'r holl ag-weddau ar ein gwasanaethau gan gynnwys:

- cofrestru a darparu gwybodaeth
- ein cynhyrchion a'n gwerthiant
- cyngor am faterion deddfwriaethol ar gyfer cwmnïau; a'n
- cymorth cyffredinol ar gyfer cwsmeriaid

Nodir manylion ein gweithdrefn gwyno yn ein cyhoeddiad 'Cwynion ac Anawsterau'.

A fyddech cystal â chysylltu â'n Canolfan Gyswllt ar **0303 1234 500** gan ofyn am gopi, neu trowch at ein gwefan.

Os nad ydych yn fodlon gydag agwedd benodol ar ein gwasanaeth, a fyddech cystal â hysbysu'r aelod o staff yr ydych yn delio gyda nhw. Byddant yn gwneud popeth y gallant er mwyn datrys yr anhawster. Os nad ydych yn fodlon o hyd, gofynnwch i gael siarad gyda'r Rheolwr.

Os na fydd hyn yn datrys eich pryder, a fyddech cystal â chysylltu â'n Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid yn ein pencadlys yng Nghaerdydd: Nodir holl gyfeiriadau cyswllt Tŷ'r Cwmnïau ar ddiwedd y ddogfen hon.

Pan fyddwch yn cysylltu gyda ni

- byddwn yn sicrhau ein bod yn cadw eich manylion yn gyfrinachol
- byddwn yn cydnabod eich gohebiaeth
- byddwn yn adolygu'r mater yn drylwyr, gan roi ymateb llawn i chi cyn pen 5 diwrnod gwaith
- os bydd angen mwy o amser arnom gan fod y broblem yn gymhleth, byddwn yn dweud wrthych cyn pen 5 diwrnod gwaith
- byddwn yn trafod y sefyllfa gyda chi os bydd angen rhoi sylw arbennig i'ch cwyn
- byddwn yn delio â chi mewn ffordd gwrtais a moesgar
- byddwn yn rhoi pwynt cyswllt, enw a rhif ffôn i chi bob amser
- byddwn yn ystyried ffurf briodol trefniadau i unioni unrhyw gam pryd bynnag y bo angen

Os na fyddwch yn fodlon gyda'r ffordd yr ydym wedi delio â'ch problem

Mae gennym Ddyfarnydd Annibynnol, y mae ei rôl yn ymwneud â bod yn ganolwr diduedd rhwng Tŷ'r Cwmnïau a'n cwsmeriaid. Bydd y Dyfarnydd yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i chi am unrhyw gynnydd gyda'ch achos, gan geisio datrys y gŵyn cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, dim ond os yw'r holl gamau o fewn proses gwyno Tŷ'r Cwmnïau wedi cael eu cymryd y bydd modd i'r Dyfarnydd ymgymryd ag achos. Yn ogystal, ni fydd modd i'r Dyfarnydd wneud sylwadau am rai materion penodol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- cwestiynau am gyfraith cwmnïau
- cwynion y mae'r Ombwdsmon wedi ymchwilio iddynt neu y mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio iddynt ar hyn o bryd
- unrhyw achos sy'n cynnwys gweithrediadau troseddol
- achosion lle y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn manteisio ar ei ddisgresiwn

Byddwn yn osgoi gohebiaeth hir wrth ddelio gyda chwynion. Ar ôl i'r Cofrestrydd fynegi ei farn mewn achos, bydd modd i gwynwyr sy'n dymuno ei herio o hyd, fynd â'r achos gerbron y Llys neu ofyn i'w Haelod Seneddol i gyfeirio eu cwyn i'r Ombwdsmon.

Ni all Tŷ'r Cwmnïau ddelio gydag:

- Anghydfodau mewnol o fewn cwmnïau; pan fydd y cyfarwyddwyr a/neu'r cyfranddeiliaid yn anghytuno ynghylch penderfyniad, bydd angen i'r cwmni geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

- Materion sy'n ymwneud â thwyll troseddol, sy'n destun ymchwiliad gan yr heddlu neu BIS. Mae Tŷ'r Cwmnïau yn cydweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau gorfodi'r gyfraith, ac fe fydd yn trosglwyddo manylion unrhyw achosion posibl o dwyll i'r asiantaethau hynny er mwyn iddynt ymchwilio iddynt.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Jane Walters
Gwasanaethau Cwsmeriaid
jwalters@companieshouse.gov.uk



"Rydym yn awyddus i'ch cynnwys chi wrth ddarparu ein gwasanaethau, a datblygu synnwyr o bartneriaeth"

Cwrteisi a bod o gymorth

Cyfathrebu gyda chi, ein cwsmeriaid

Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn darparu gwybodaeth gyffredinol i chi am rwymedigaethau cwmnïau, yn ogystal â newyddion am ddatblygiadau yn Nhŷ'r Cwmnïau, newidiadau i'r gyfraith gwmnïau a diwygiadau i'r taliadau.

Sut y gallwch chi ein helpu ni

Rydym yn awyddus i'ch cynnwys chi wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, ac i ddatblygu ymdeimlad o bartneriaeth.

Er mwyn ein helpu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'n holl gwsmeriaid ac er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf Cwmnïau, bydd angen i chi gofio'r angen i:

- sicrhau eich bod yn deall eich rhwymedigaethau cyfreithiol, os ydych yn gyfarwyddwr cwmni
- bodloni gofynion ffeilio y Ddeddf Cwmnïau o fewn terfynau amser statudol
- ein hysbysu yn gynnar os byddwch yn cael anawsterau wrth fodloni rhwymedigaethau statudol
- deall ein bod yn gweithredu o fewn fframwaith statudol, sy'n cyfyngu'r camau y mae modd i ni eu cymryd weithiau
- deall ein bod yn delio gyda dros 2.6 miliwn o gwmnïau a'n bod yn cael oddeutu 20,000 o ddogfennau bob dydd. A fyddech cystal â defnyddio unrhyw gyfeirnod y byddwn yn ei roi i chi mewn unrhyw ohebiaeth.

Cyswllt cychwynnol trwy gyfrwng llythyr

Mae'n staff wedi cael eu hyfforddi i baratoi llythyrau mewn arddull hygyrch a chan ddefnyddio iaith glir. Mae'n llythyrau yn cynnwys enw'r unigolyn sy'n delio gyda'ch achos chi, ynghyd â rhif ffôn er mwyn cysylltu â nhw yn uniongyrchol.

Ymholiadau gan gwsmeriaid

Pan fyddwn yn cael ymholiadau, byddwn yn cofnodi'r manylion llawn a phan fo hynny'n briodol, byddwn yn anfon llythyr cadarnhad cyn pen 10 diwrnod gwaith. Cyflwynir ateb interim cyn pen 5 diwrnod gwaith os na fydd modd i ni ddatrys y mater yn syth, neu os bydd angen gwneud gwaith ymchwilio pellach. Pan fyddwn yn cael ymholiad dros y ffôn yn uniongyrchol, mae'n bwysig ein bod yn deall y mater yn llawn.

Byddwn yn dilyn y canllawiau canlynol:

- byddwn yn nodi ein henw
- byddwn yn ateb galwadau mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol bob amser
- cofnodir yr holl ffeithiau ac fe'u darllenir i chi er mwyn sicrhau ein bod wedi deall y gŵyn
- byddwn yn eich ateb ac yn holi a ydych yn fodlon
- ni fyddwn yn trosglwyddo galwad oni bai ein bod yn hollol siŵr bod yr unigolyn sy'n cymryd yr alwad yn gallu delio gyda'r mater
- bydd aelod o staff sy'n cymryd galwad sy'n briodol ar gyfer maes arall yn nodi'r manylion, yn nodi pwy ydynt, yn ymddiheuro, yn esbonio'u bod yn trosglwyddo'r alwad i'r unigolyn cywir a pham. Rhoddir manylion yr unigolyn y byddant yn trosglwyddo eich galwad iddynt cyn trosglwyddo'r alwad. Os ydych wedi cael eich trosglwyddo yn barod, byddwn yn ymddiheuro ac yn cynnig y bydd yr unigolyn yn eich ffonio yn ôl.
- byddwn bob amser yn sicrhau y rhoddir enw llawn a rhif ffôn er mwyn i chi fod yn ymwybodol o'r sawl y dylech gysylltu â nhw os byddwch yn cael unrhyw broblemau pellach
- ni fyddwn yn delio gyda phryderon cwsmeriaid trwy ddweud, "Mae'n ddrwg gennym, ond dyma yw'n polisi" oni bai ein bod yn gallu rhoi esboniad llawn o'r rheswm dros hyn
- os na fyddwch yn fodlon gydag ymateb, cynigir y cyfle i chi siarad gyda rheolwr. Os na fydd y mater yn cael ei ddatrys, byddwn yn eich hysbysu pa gamau pellach fydd yn cael eu cymryd
- trosglwyddir manylion pob cwyn i'r tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn syth

Ymholiadau e-bost i'n Canolfan Gyswllt

Gall cwsmeriaid ddisgwyl cael cydnabyddiaeth awtomatig, ynghyd ag ateb, cyn pen 3 awr neu 2 ddiwrnod gwaith os bydd angen ymateb manylach ar gyfer yr ymholiad.

Canolfan Gyswllt: 0303 1234 500

Ein Gwasanaethau

Mae gan staff ein Canolfan Gyswllt brofiad helaeth o Dŷ'r Cwmnïau a sut y mae'n gweithio. Fel arfer, byddant yn gallu rhoi ateb i'ch ymholiad yn syth. Os na fyddant yn gallu ateb eich ymholiad, byddant yn eich trosglwyddo i rywun a fydd yn gallu ei ateb. Ni all staff Tŷ'r Cwmnïau roi cyngor cyfreithiol ffurfiol i chi. Dylech gael cyngor o'r fath gan Gynghorydd Cyfreithiol cymwys. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu os oes gennych unrhyw amheuaeth am yr hyn y bydd angen i ni ei gael gennych, dylech ein ffonio.

Os yw'r ymholiadau yn ymwneud â chwmni cofrestredig Albanaidd neu o Ogledd Iwerddon, dylech ffonio **0303 1234 500** hefyd. Mae llinellau ein Canolfan Gyswllt ar agor rhwng 8.30am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, os na fydd hyn yn gyfleus ac os ydych yn dymuno cael ymateb ysgrifenedig, mae'n Canolfan Gyswllt yn darparu gwasanaeth e-bost, gallwch gysylltu â'r gwasanaeth hwn trwy anfon e-bost at enquiries@companieshouse.gov.uk a byddwch yn cael ymateb cyn pen dau ddiwrnod gwaith.

Arweiniad

Rydym yn cyhoeddi cyfres o gyhoeddiadau hawdd i'w deall. Mae'r rhain yn esbonio agweddau ar y Ddeddf Cwmnïau yn fanwl, fel y mae'n ymwneud â chwmnïau, gan nodi'r cyfyngiadau amser sy'n gysylltiedig â ffeilio dogfennau statudol, eich hysbysu o'r taliadau a phan fo hynny'n briodol, dangos i chi sut i lenwi'r ffurflen a hefyd, yr hyn i'w wneud os bydd amgylchiadau eich cwmni yn newid. Mae modd gweld yr holl gyhoeddiadau trwy droi at ein gwefan. Neu, gallwch ofyn am gopïau trwy ffonio ein Canolfan Gyswllt ar **0303 1234 500.**

Ffurflenni statudol

Rhaid i bob cwmni cofrestredig gyflwyno amrywiaeth o wybodaeth am eu gweithgareddau busnes. Mae modd lawrlwytho ein holl ffurflenni statudol o'n gwefan ac mae modd llenwi nifer ar-lein. Yn ogystal, mae modd i chi ddychwelyd ein ffurflenni atom yn y post.

Mae modd dychwelyd y ffurflenni hyn ar-lein:

AR01	Ffurflen Flynyddol (ffi o £15)
Cyfrifon Blynyddol	Cyfrifon Cryno wedi eu Heithrio rhag Archwilio
AA01	Newid dyddiad cyfeirnod cyfrifeg
AA02	Cyfrifon cwmni segur
AD01	Newid lleoliad neu gyfeiriad y swyddfa gofrestredig
AP01	Penodi Cyfarwyddwr
AP02	Penodi Cyfarwyddwr Corfforaethol
AP03	Penodi Ysgrifennydd
AP04	Penodi Ysgrifennydd Corfforaethol
TM01	Terfynu penodiad Cyfarwyddwr
TM02	Terfynu penodiad Ysgrifennydd
CH01	Newid manylion y Cyfarwyddwr
CH02	Newid manylion yr Ysgrifennydd
CH03	Newid manylion y Cyfarwyddwr Corfforaethol
CH04	Newid manylion yr Ysgrifennydd Corfforaethol
AD02	Hysbysu am leoliad archwilio amgen unigol (SAIL)
AD03	Newid lleoliad cofnodion y cwmni i'r lleoliad archwilio amgen unigol (SAIL)
AD04	Newid lleoliad cofnodion y cwmni i'r swyddfa gofrestredig
SH01	Dychwelyd Clustnodiad Cyfrannau

Mae modd i chi gael rhagor o wybodaeth am ffeilio ar-lein neu lawrlwytho ffurflenni papur trwy droi at **www.companieshouse.gov.uk.** neu gallwch gael un copi o unrhyw un o'n ffurflenni trwy ffonio ein Canolfan Gyswllt ar **0303 1234 500**

Sut y gallwch chi ddiogelu ich cwmni

Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi cyflwyno mesurau er mwyn helpu cwmnïau i ddiogelu eu hunain rhag cael eu herwgipio fel cwmni. Gelwir hwn y Cynllun Tri Phwynt.

Argymhellwn y dylai cwmnïau:

- gofrestru ar gyfer WebFiling, y mae nodweddion diogelwch yn rhan annatod ohono, gan helpu i atal unigolion anawdurdodedig rhag ffeilio dogfennau ar gofnod eich cwmni;

- ymuno â'r Cynllun Ffeilio Ar-lein wedi'i Ddiogelu (PROOF). Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn rhad ac am ddim ac mae'n cynnig lefel ddiogelwch sy'n ychwanegol i WebFiling. Dan y cynllun, byddwch yn rhoi'r awdurdod i ni i wrthod dogfennau penodol, oni bai eu bod yn cael eu ffeilio yn electronig gan ddefnyddio cyfrineiriau diogel;

- manteisio ar Wasanaeth Monitor Tŷ'r Cwmnïau. Mae hwn yn hysbysu cwmnïau o newidiadau a wnaethpwyd i'w cofnodion trwy gyfrwng neges e-bost bob tro y caiff dogfen ei ffeilio. Mae modd gweld gwybodaeth am y dewisiadau hyn trwy droi at ein gwefan sef **www.companieshouse.gov.uk**

Cylchgrawn 'Register'

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am Dŷ'r Cwmnïau yn eich cylchgrawn i gwsmeriaid, Register. Mae'r cylchgrawn yn darparu gwybodaeth am faterion o ddiddordeb ar y pryd, yn ogystal â manylion unrhyw weithdrefnau newydd, gofynion cyfreithiol a'n perfformiad yn erbyn targedau. Mae modd gweld Register yn ein holl swyddfeydd ac mae'n ymddangos ar ein gwefan.

Cynhyrchion a gwasanaethau

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am ddim am wasanaethau a chynhyrchion. Mae modd gweld y wybodaeth hon trwy droi at ein gwefan sef **www.companieshouse.gov.uk** neu ffonio ein Canolfan Gyswllt ar **0303 1234 500**

Diwrnodau Gwybodaeth

Er mwyn helpu cwmnïau i gydymffurfio â'r gyfraith, byddwn yn trefnu sawl Diwrnod Gwybodaeth rhanbarthol trwy gydol y flwyddyn. Nod y Diwrnodau hyn yw'ch helpu chi:

- i sicrhau bod swyddogion y cwmni a'u cynghorwyr yn gyfarwydd â gofynion ffeilio y Ddeddf Cwmnïau

- darparu cyngor am newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn ddiweddar a'r effaith y gallent ei chael ar gwmnïau a'u swyddogion

- esbonio newidiadau a datblygiadau yn y dyfodol

- darparu gwybodaeth am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau

- deall eich rhwymedigaethau ffeilio

Yn ogystal, byddwch yn cael y cyfle:

- i siarad gyda rheolwyr Tŷ'r Cwmnïau am faterion sy'n effeithio ar y ffordd y cynhelir eich busnes
- deall datblygiadau a welwyd yn ddiweddar yn y Ddeddf Cwmnïau
- penderfynu pa wasanaethau gan Dŷ'r Cwmnïau sy'n diwallu eich anghenion orau

I gael gwybodaeth am archebu lle, cysylltwch â Philip Fox, Marchnata
Pfox@companieshouse.gov.uk

Arddangosfeydd:

Rydym yn mynychu ac yn cynorthwyo amrywiaeth o arddangosfeydd trwy gydol y flwyddyn.Mae mynychu arddangosfeydd yn caniatáu i ni:

- godi ymwybyddiaeth o Dŷ'r Cwmnïau, ein swyddogaethau a'n gwasanaethau
- cyfarfod a helpu ein defnyddwyr presennol a chyflwyno ein hunain i gwsmeriaid newydd
- ateb ymholiadau am ddeddfwriaeth ar gyfer cwmnïau, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth
- darparu llwyfan er mwyn cyflwyno ac arddangos ein gwasanaethau gwybodaeth ar-lein

Bydd ein tîm arddangos wrth y stondin, yn barod i gynnig arweiniad am gydymffurfio ac i ddarparu arddangosiadau o'n gwasanaethau gwybodaeth ar-lein pryd bynnag y byddwch eu hangen

Os hoffech gael manylion neu docynnau i unrhyw un o'r arddangosfeydd, a fyddech cystal a chysylltu â:

Tanya Lang
Marchnata
tlang@companieshouse.gov.uk

Yr Iaith Gymraeg

Cyfathrebu yn Gymraeg

Mae gennym staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac sydd ar gael i ddelio gydag ymholiadau gan bobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Mae gan Dŷ'r Cwmnïau bolisi iaith Gymraeg, y mae modd ei weld trwy droi at ein gwefan. Am ragor o wybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg, a fyddech cystal â chysylltu ag:

Os yw memorandwm ac erthyglau cwmni yn nodi bod ei swyddfa gofrestredig yn Lloegr a Chymru, byddwn ni'n derbyn y cyfrifon a'r memorandwm ac erthyglau yn Gymraeg fel rheol os oes copi Saesneg ardystiedig i gyd-fynd â nhw. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn darparu fersiynau dwyieithog Cymraeg/Saesneg o rai o'n ffurflenni mwyaf poblogaidd hefyd sef:

AR01c (Ffurflen Flynyddol); **AD01c** (y swyddfa gofrestredig); **AP01c**, **AP02c, AP03c, AP04c, TM01c, TM02c, CH01c, CH02c, CH03c, CH04c** (manylion cyfarwyddwyr ac ysgrifenyddion); **AA01** (newid cyfnod cyfeirnod cyfrifeg); **IN01c** (corffori); **NE01c** (eithrio rhag defnyddio'r gair "cyfyngedig") a **DS01c** a **DS02c** (dileu o'r gofrestr).

Gellir ffeilio rhai ffurflenni ar-lein a gellir argraffu rhai eraill o'n gwefan, mae'r manylion llawn ar ein gwefan.

Cyfathrebu gyda ni

Mae gan gyfarwyddwyr cwmni rwymedigaeth bersonol i sicrhau bod gwybodaeth am gyfalaf, strwythur, rheolaeth a gweithgareddau eu cwmnïau ar gael i aelodau'r cwmni ac i'r cyhoedd.

Yn benodol, rhaid i bob cwmni gyflwyno Ffurflen Flynyddol i'r Cofrestrydd o leiaf unwaith bob 12 mis – y ffordd fwyaf poblogaidd a chost-effeithiol o ffeilio'r ddogfen hon yw trwy gyfrwng ein gwasanaethau ar-lein, y mae modd manteisio ar y gwasanaethau hyn trwy droi at dudalen hafan Tŷ'r Cwmnïau sef **www.companieshouse.gov.uk**. Os nad oes modd i chi ffeilio ar-lein ac os bydd angen i chi gael fersiwn papur o'r Ffurflen Flynyddol, mae modd archebu un gan ein Canolfan Gyswllt. Rhaid i bob cwmni cyfyngedig ac anghyfyngedig, os ydynt yn masnachu neu beidio, gadw cofnodion cyfrifeg. Rhaid i bob cwmni cyfyngedig anfon eu cyfrifon archwiliedig i'r Cofrestrydd cyn pen y cyfnod penodedig ar gyfer eu cyflwyno, ar sail eu "dyddiad cyfeirnod cyfrifeg". Mae modd i gwmnïau bach mewn categorïau penodol hawlio eithriad o'r gofyniad archwilio ar yr amod eu bod yn bodloni amodau penodol, ond mae'n rhaid iddynt gyflwyno cyfrifon o hyd. Am arweiniad pellach, trowch at ein llyfryn **'Bywyd Cwmni – Rhan 1 Gofynion Blydyddol'.**

Yn ogystal, bydd angen i'r Cofrestrydd gael gwybodaeth am:

- enodiadau ac ymddiswyddiadau cyfarwyddwyr ac ysgrifennydd y cwmni
- Newidiadau i swyddfa gofrestredig y cwmni
- Newidiadau i fanylion cyfarwyddwyr ac ysgrifennydd
- Manylion cyfranddeiliaid
- Manylion morgeisiau, taliadau a chyfalaf cyfrannau
- Penderfyniadau i newid y memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasiad; a'r
- Cwmni yn ymddatod neu'n mynd i ddwylo derbynnydd

Os na fyddwch yn cydymffurfio gyda'ch rhwymedigaeth cyfreithiol

Mae absenoldeb gwybodaeth sy'n ofynnol dan y gyfraith yn atal y gymuned fusnes rhag gwneud penderfyniadau masnachol gwybodus a chywir, gan olygu na fydd modd i bobl gael eu diogelu mewn ffordd y mae ganddynt yr hawl i gael eu diogelu gan y gyfraith wrth ddelio gyda chwmni cyfyngedig. Os na fyddwch yn cydymffurfio gyda'ch rhwymedigaethau cyfreithiol, gallai hyn arwain y Cofrestrydd i dybio nad yw'r cwmni yn weithredol mwyach. Gallai hyn arwain at ddiddymu'r cwmni.

Yn achos cyfrifon hwyr, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn gweithredu system Cosbau Ffeilio Hwyr. Gweithredir y rhain pryd bynnag y cyflwynir cyfrifon i'r Cofrestrydd y tu allan i'r cyfnod statudol.

Newidiwyd y system cosbau ffeilio hwyr ar 1 Chwefror 2009. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r system newydd

Tabl y cosbau ar gyfer cwmnïau sy'n ffeilio'n hwyr, o 1 Chwefror 2009		
Hyd yr oedi (a fesurir o'r dyddiad pan fo'r cyfrifon yn ddyledus)	**Cwmni Cyhoeddus**	**Cwmni Preifat**
1 mis Neu lai	£ 750	£ 150
1 mis ac un diwrnod i 3 mis	£ 1500	£ 375
3 mis ac un diwrnod i 6 mis	£ 3000	£ 750
Dros 6 mis	£ 7500	£ 1500
Ar gyfer cwmnïau y mae dyddiad cychwyn eu cyfrifon ar neu ar ôl 6 Ebrill 2009, bydd cosb ddwbl newydd yn berthnasol ar gyfer ffeilio hwyr sy'n digwydd fwy nag unwaith. Mae hyn yn golygu y bydd cwmnïau sy'n ffeilio yn hwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf yn cael cosb fel y disgrifiwyd uchod. Fodd bynnag, os bydd y cwmni yn ffeilio yn hwyr y flwyddyn ganlynol, bydd y gosb a roddwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf yn cael ei dyblu. Cynlluniwyd y gosb ddwbl newydd er mwyn gosod cosbau cymesur i'r ychydig gwmnïau hynny sy'n torri amodau'r rheoliadau dro ar ôl tro.		

Disgresiwn cyfyngedig iawn sydd gan y Cofrestrydd i beidio casglu cosb, gellir manteisio arno pan fydd trychineb annisgwyl wedi atal y cyfrifon rhag cael eu ffeilio mewn pryd. Ni all y Cofrestrydd fanteisio ar ei ddisgresiwn:

- pan fo'r cyfrifon yn cael eu hoedi neu'n mynd ar goll yn y post
- pan fo cynghorwyr proffesiynol yn siomi cyfarwyddwyr
- pan fo swyddogion cwmni yn rhy brysur i ffeilio cyfrifon
- pan na fydd swyddogion cwmni yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau
- pan na fo'r cwmni wedi cael llythyrau atgoffa gan Dŷ'r Cwmnïau
- pan fo'r cwmni yn segur a heb unrhyw asedion
- pan fo'r cwmni yn gymdeithas drigolion

Yn ogystal, gall cyfarwyddwyr cwmni na fyddant yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Cwmnïau:

- gael eu herlyn
- cael cofnod troseddol; a
- chael dirwy o hyd at £5,000 ar gyfer pob trosedd

Cwsmeriaid sydd ag anghenion arbennig

Os oes gennych angen arbennig, byddwn yn gwneud popeth y gallwn er mwyn eich helpu chi pan fyddwn yn ymateb. Mae'r gwasanaethau arbennig y gallwn eu darparu yn cynnwys:

- minicom
- defnyddio print mawr wrth ysgrifennu llythyrau, darparu copïau sain o'n deunydd argraffedig
- cyfleusterau ar gyfer cwsmeriaid anabl er mwyn eu galluogi i ddefnyddio ein canolfannau gwybodaeth
- cyswllt gyda chynrychiolwyr ar gyfer cwsmeriaid nad Saesneg yw eu mamiaith
- llythyrau neu gyhoeddiadau arweiniad mewn Braille

Cost cydymffurfio a gwerth am arian

Fel sefydliad yn y sector cyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i broses effeithlon a darbodus o ddarparu gwasanaethau. Mae targedau Tŷ'r Cwmnïau yn ymwneud ag:

- effeithlonrwydd
- ansawdd y gwasanaeth
- gwerth am arian

Adlewyrchir rheolaeth ofalus ein hadnoddau yn y gwaith o fodloni ein targedau gwerth am arian. Mae'n Cyfrifon a'n Hadroddiad Blynyddol yn dangos ein bod yn parhau i wella ein targedau ariannol, gan sicrhau gostyngiadau yng nghostau go iawn prosesu dogfennau, yn erbyn ein targedau.

Gan fod ein ffioedd yn cael eu seilio ar adennill costau, mae'r effeithlonrwydd ariannol y byddwn yn ei gyflawni yn sicrhau budd uniongyrchol i'r cwsmer. Hyd yn hyn, mae datblygiad ein gwasanaethau electronig wedi helpu i ostwng ffioedd mewn rhai meysydd.

Pan na fydd cwmnïau yn cydymffurfio

Ceir dros 2.6 miliwn o gwmnïau byw ar y gofrestr. Rydym yn canlyn cwmnïau nad ydynt yn llwyddo i gyflwyno cyfrifon a ffurflenni blynyddol o fewn y cyfnodau statudol. Ein harfer yw ceisio annog cwmnïau i ffeilio ac i gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae methu cydymffurfio yn drosedd. I'r cwmnïau hynny nad ydynt yn cyflwyno dogfennau mewn pryd, mae bygythiad achos troseddol yn erbyn y cyfarwyddwyr yn aml yn sicrhau llwyddiant. Dylid pwysleisio nad ydym yn erlyn cyfarwyddwyr er mwyn eu cosbi yn unig; diben y weithdrefn yw cynnig cymhelliad i gydymffurfio pan fu dulliau eraill yn aflwyddiannus.

Rhaid i'r Cofrestrydd sicrhau bod ein cronfeydd yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddoeth ac yn unol â'r gweithdrefnau. Mae erlyniadau yn destun cyfyngiadau ariannol ac mae'n rhaid iddynt fodloni'r meini prawf yn y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron cyn i ni allu canlyn achos troseddol.

Er hyn, byddwn yn collfarnu oddeutu 1,800 o gyfarwyddwyr cwmnïau bob blwyddyn ym Mhrydain am fethu cyflwyno ffurflenni a/neu gyfrifon blynyddol.

Ein polisi yw gostwng y gost i fusnesau o gydymffurfio cymaint ag y bo modd. Felly, byddwn yn parhau gyda'n hymrwymiad i'r gwaith o fonitro ein gwariant yn drylwyr ac i reolaeth ariannol gadarn, ar bob lefel.

Cysondeb

Ein nod yw cyflawni ein dyletswyddau mewn ffordd sy'n deg, sy'n gyfartal ac sy'n gyson.

Mae mwyafrif ein staff yn ymwneud â'r gwaith o archwilio a thrin dogfennau neu sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Mae eraill yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion newydd er mwyn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid ynghylch troi at wybodaeth am gwmnïau.

Rydym yn darparu'r wybodaeth hon mewn amrywiaeth o ffurfiau, sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cwsmeriaid.

Mae'r Ddeddf Cwmnïau yn diffinio'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chofrestru, gan roi'r grym i'r Cofrestrydd i bennu'r ffurflenni angenrheidiol y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth ynddynt. Felly, er y disgwylir i'n staff ddefnyddio'u pwyll mewn sawl achos, mae'r gofynion cyfreithiol yn hyrwyddo cysondeb.

Arweiniad

Mae modd gweld yr holl Arweiniad a restrir isod, ynghyd â'r holl wybodaeth a gyhoeddwyd gennym, trwy droi at wefan Tŷ'r Cwmnïau: **www.companieshouse.gov.uk**

Canllawiau	
Canllawiau i Gwmnïau	
GP1	Corffori ac Enwau
GP2	Bywyd Cwmni – Rhan 1 Gofynion Blynyddol
GP3	Bywyd Cwmni – Rhan 2 Ffeilio yn sgil Digwyddiadau
GP4	Dileu o'r Gofrestr, Diddymu ac Adfer
GP5	Cosbau Ffeilio Hwyr
GP6	Rheolau'r Cofrestrydd
GP7	Cyfyngu datgeliad eich cyfeiriad
Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedigs	
GPLLP1	Canllawiau i Gyfarwyddwyr ac Ysgrifenyddion
GPLLP2	Bywyd Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
GPLLP3	Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig: Dileu o'r Gofrestr, Diddymu ac Adfer
Diddymu ac Adfer	
GPLLP4	Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig: Cosbau Ffeilio Hwyr
GPLLP5	Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig: Ymddatod ac Ansolfedd
GPLLP5s	Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig: Ymddatod ac Ansolfedd (yr Alban)
Deddfwriaeth Arall	
GPO1	Cwmnïau Tramor wedi'u Cofrestru yn y DU
GPO2	Deddf Partneriaeth Gyfyngedig
GPO3	Deddf Enllib a Chofrestru Newyddiadur
GPO4	Grwpiad Buddiannau Economaidd Ewropeaidd
GPO5	Cynnal Busnes yn y Gymraeg
GPO6	Y Cwmni Ewropeaidd: Societas Europaea (SE)
GPO7	Uno Cwmnïau ar draws Ffiniau
GPO8	Ymddatod ac Ansolfedd
GPO8s	Ymddatod ac Ansolfedd (yr Alban)

Cysylltiadau

Canolfan Gyswllt: 0303 1234 500*
Mini-com: 029 2038 1245
enquiries@companieshouse.gov.uk
www.companieshouse.gov.uk

Caerdydd:
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron,
Caerdydd CF14 3UZ
DX 33050 Caerdydd

Caeredin:
The Registrar of Companies, Companies House
4th Floor, Edinburgh Quay 2,
139 Fountainbridge, Edinburgh, Scotland,EH3 9FF
DX ED235Edinburgh 1
neu LP - 4Edinburgh 2 (Post Cyfreithiol)

Llundain:
Companies House
21 Bloomsbury Street,
London WC1B 3XD

Belfast:
Companies House
Second Floor, The Linenhall,
32-38 Linenhall Street,
Belfast BT2 8BG

*Efallai y bydd eich galwad yn cael ei monitro at ddibenion hyfforddi neu sicrhau ansawdd